# Canllawiau Statudol: Adroddiadau Blynyddol Caffael Cymdeithasol Gyfrifol

## Cyflwyniad

1. Mae adran 39 o [Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023]() (Deddf SPPP), yn disgrifio'r ddyletswydd ar Awdurdodau Contractio penodol i baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar eu caffael cyhoeddus.

## Pwy ddylai gyhoeddi adroddiad blynyddol caffael cymdeithasol gyfrifol?

2. Os yw Awdurdod Contractio wedi dyfarnu unrhyw gontractau rhagnodedig mewn blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi adroddiad blynyddol (Adran 39(1)).

3. Mae adran 42 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru y flwyddyn honno. Rhaid iddo gynnwys gwybodaeth am adroddiadau blynyddol a gyhoeddir o dan adran 39 a chanlyniadau unrhyw ymchwiliadau caffael o dan adran 41. Yn ddelfrydol gwneir hyn ar ôl i'r holl Awdurdodau Contractio gyhoeddi eu hadroddiadau eu hunain.

## Ble i gyhoeddi

4. Dylid cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar wefan yr Awdurdod Contractio.

5. Dylid anfon dolen i'r adroddiad blynyddol drwy e-bost at commercialpolicy@gov.wales

## Amseriad cyhoeddi

6. Mae Ddeddf SPPP yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad blynyddol gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ei gwmpasu. Bydd Awdurdodau Contractio yn cael eu hannog a'u cefnogi i gyhoeddi adroddiadau, yn ddelfrydol, o fewn chwe mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol. I'r rhan fwyaf o sefydliadau mae hyn yn golygu cyn diwedd mis Medi. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi'r adroddiad cryno o fewn yr un flwyddyn ariannol.

## Cynnwys adroddiadau blynyddol.

7. Mae Ddeddf SPPP yn disgrifio tair adran yn yr Adroddiad Blynyddol,
   i. crynodeb o'r ymarferion caffael cyhoeddus a arweiniodd at ddyfarniad contract rhagnodedig ac a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn (adran 39(2)(a) i (c)) , i ba raddau y cymerodd yr awdurdod bob cam rhesymol i gyflawni ei amcanion

cyhoeddedig ar gyfer y contracrau rhagnodedig hyn, a phan fo'n berthnasol, sut y gellid cymryd camau pellach o fewn rheswm;

ii. crynodeb o'r caffael cyhoeddus y mae'n disgwyl ei gyflawni yn y ddwy flynedd ariannol ganlynol (39(2)(d)); a

iii. gwybodaeth, a ddisgrifir yn rheoliadau (adrannau 39(2)(e) ac (f) a 39(3)), y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru asesu i ba raddau y mae Awdurdodau Contractio yn cyflawni'r nodau llesiant drwy gyflawni eu hamcanion, a sut mae eu caffael, yn gyffredinol, yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

8. Er nad yw Deddf SPPP yn diffinio'r fformat y dylai'r adroddiad blynyddol ei gymryd, dylai Awdurdodau Contractio ystyried gwneud y tair adran hyn yn glir ac yn eglur yn y strwythur. Dylid nodi hefyd y dylai adroddiadau gynnwys cyflawniadau o ran pob un o'r saith nod llesiant.

9. Pwrpas yr adroddiadau hyn yn bennaf yw cynorthwyo tryloywder fel y gall yr holl randdeiliaid, o ddinasyddion i gyrff cyllido, asesu pa mor llwyddiannus mae amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol (Amcanion SRP) yr awdurdod yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant.

10. Mae hefyd yn gyfle i bob Awdurdod Contractio ddod â'i weithgaredd caffael yn fyw, cynnwys astudiaethau achos sy'n dangos ei gyflawniadau a rhannu arfer da. Er bydd angen adrodd ar fetrigau a data, mae straeon ac enghreifftiau yn aml yn ysbrydoledig, i'r rhai sy'n drafftio a'r rhai sy'n darllen yr adroddiadau. Anogir cynnwys lluniau a dyfyniadau gan bobl sy'n cymryd rhan.

11. Nid oes unrhyw reswm i'r adroddiad blynyddol gael ei gyfyngu i'r gofynion yn adran 39 o Ddeddf SPPP. Gall Awdurdodau Contractio gynnwys gwybodaeth arall a fydd o ddiddordeb i'w rhanddeiliaid.

12. Mae strwythur a awgrymir ar gyfer y cynnwys fel a ganlyn:

## Rhan 1. Bodloni Amcanion Caffael Cymdeithasol Gyfrifol

13. Mae'n debygol y bydd angen manylion y canlynol ar gyfer cyd-destun:

- Gwybodaeth gyd-destunol am y sefydliad, a'i gaffael a'i waith rheoli contractau dros y flwyddyn.
- Manylion am unrhyw ddiwygiadau i Amcanion SRP a wnaed yn ystod y flwyddyn.

- Crynodeb o gyfanswm gwariant caffael yn y flwyddyn flynyddol a gwmpesir, sut mae hyn yn gwahanu'n gategorïau ac ati.
- Unrhyw gontractau arbennig o fawr, cymhleth neu bwysig a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn.
- Crynodeb (gan gynnwys nifer) o gaffaeliadau a arweiniodd at gontractau rhagnodedig, neu a fwriadwyd i arwain at ddyfarnu contract rhagnodedig, gan gynnwys:
    - Contractau adeiladu mawr
    - Allanoli contractau gwasanaethau
- Contractau rhagnodedig eraill fel y nodir mewn rheoliadau (NB: mae trefniant yn ôl y gofyn gan fframwaith/marc dynamig yn cael ei ddosbarthu fel contract – gweler isod).
- Manylion unrhyw hysbysiadau a anfonir at Weinidogion Cymru am beidio â chynnwys y cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol neu weithlu.

14. Mae'n ofynnol i'r cyrff hynny a restrir yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf WFG) adrodd ar gyflawni amcanion sefydliadol bob blwyddyn, ac mae gofynion tebyg mewn deddfwriaeth gysylltiedig arall. Anogir croesgyfeirio ac integreiddio ag adroddiadau eraill, er mwyn atgyfnerthu cyfleoedd i wella trwy alinio, ac er mwyn lleihau dyblygu.

15. Gan fod caffaeliadau allanoli gwasanaethau a gwaith adeiladu mawr yn destun adran sylweddol o Ddeddf SPPP, dylai Awdurdodau Contractio gynnwys yn eu hadroddiadau fanylion o'r holl waith parhaus i sicrhau bod y cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol a'r gweithlu yn parhau i weithredu mewn contractau a chadwyni cyflenwi perthnasol. Efallai y bydd angen adrodd ar gontractau a ddyfarnwyd mewn blynyddoedd ariannol blaenorol. Dylid cynnwys unrhyw ddata perfformiad perthnasol. Gweler y canllawiau Cymalau a Hysbysiadau Gwaith a'r Gweithlu am enghreifftiau.

16. Ar gyfer Awdurdod Contractio mawr a allai fod wedi dyfarnu llawer o gontractau rhagnodedig yn ystod y flwyddyn, efallai y byddai'n fwy ymarferol strwythuro'r adran hon o amgylch yr Amcanion SRP a disgrifio sut mae'r rhain wedi'u cyflawni yn yr ymarferion caffael a gynhaliwyd. Bydd angen cyfeirio at yr holl gontractau rhagnodedig perthnasol.

17. Efallai y bydd angen cynnwys manylion contractau rhagnodedig a ddyfarnwyd mewn blynyddoedd blaenorol (ers i Ddeddf SPPP ddod i rym) sy'n dal i fod ar waith, er mwyn adrodd ar gyflawni Amcanion SRP.

18. Yn dibynnu ar y mathau o Amcanion a osodwyd, efallai y byddai'n well cynnwys y wybodaeth uchod ar ffurf naratif yn hytrach nag mewn tabl, gyda phob amcan yn ffurfio is-bennawd o fewn yr adran hon.

19. Yn dibynnu ar natur yr Amcanion SRP, gellid cyflwyno canlyniadau fel tablau data, graffiau, naratifau a/neu astudiaethau achos. Mae data am ddeilliannau llesiant, pan fo ar gael, yn fwy gwerthfawr na mewnbwn na mesurau sy’n seiliedig ar weithgarwch.

20. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Contractio gynnwys gwybodaeth am sefyllfaoedd lle na chyflawnwyd yr Amcanion SRP. Mae hwn yn gyfle i hunanasesu, gan gynnwys rhesymau pam efallai na fyddai camau wedi'u cymryd i gyflawni’r Amcanion SRP, neu na chyflawnwyd deilliannau, ynghyd â chyfleoedd posibl ar gyfer gwella.

21. Anogir Awdurdodau Contractio i ddod â'r adran hon o'r adroddiad yn fyw trwy gynnwys enghreifftiau, astudiaethau achos a chanolbwyntio ar ganlyniadau a gyflawnwyd neu gyfleoedd i wella.

### Caffael cydweithredol a fframweithiau

22. Gall contractau yn ôl y galw o fframwaith neu farchnad ddynamig hefyd fod yn "gontract rhagnodedig" os ydynt yn cyfateb i'r diffiniad a ddarperir yn yr SPPPA a'r Rheoliadau. Er gallai'r fframwaith neu'r farchnad ddynamig ei hun fod wedi'i sefydlu gan sefydliad arall sydd yng Nghymru neu y tu allan iddi, bydd angen i holl gwsmeriaid y fframweithiau hynny sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 1 Deddf SPPP gynnwys manylion y contractau hyn yn ôl y galw yn eu hadroddiad blynyddol, ac esbonio sut maent wedi cymryd camau i gyflawni eu Hamcanion SRP.

23. Am y rheswm hwn, mae'n bwysig i Awdurdodau Contractio sicrhau bod unrhyw fframwaith neu farchnad ddynamig y maent yn dewis ei defnyddio yn cyd-fynd â'r Amcanion SRP y maent wedi'u cyhoeddi. Bydd angen esbonio unrhyw fylchau rhwng Amcanion SRP Awdurdod Contractio a nodweddion a thelerau amodau'r fframwaith yn yr Adroddiad Blynyddol.

## Rhan 2. Crynodeb o'r caffael a ddisgwylir dros y ddwy flynedd ariannol nesaf.

24. Mae'r adran hon yn bodloni'r gofynion yn Adran 39(2)(d) o Ddeddf SPPP.

25. Rhaid cynnwys rhestr o ymarferion caffael y disgwylir iddynt ddigwydd o fewn y ddwy flynedd ganlynol. Dylid cyflwyno'r wybodaeth hon fel y gorau sydd ar gael ar adeg ysgrifennu. Dylai gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl, gan gynnwys, lle bo'n bosibl:

- manylion y gofyniad
- amserlen debygol ar gyfer pryd y bydd y caffael yn digwydd
- gwerth a hyd disgwyliedig y contract

26. Nid yw Ddeddf SPPP yn nodi bod y wybodaeth hon i'w chyfyngu i gontractau rhagnodedig. Y bwriad o gynnwys y wybodaeth hon yw rhoi hysbysiad ymlaen llaw i ddarpar gynigwyr am gontractau sydd i ddod, ac felly bydd gwybodaeth am gontractau gwerth is sydd ar y gweill hefyd o ddiddordeb, yn enwedig i fusnesau llai a mentrau cymdeithasol. Mater i bob Awdurdod Contractio yw penderfynu ar ba wybodaeth i'w chynnwys yn yr adran hon o'r strategaeth.

27. Efallai y bydd yr Awdurdod Contractio yn ystyried cynnwys y wybodaeth hon ar ei wefan, ar ffurf y gellir ei diweddaru'n rheolaidd. Yn yr achos hwnnw, gallai'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol gynnwys dolen i'r wybodaeth hon, a chipolwg ohoni, ar adeg ei chyhoeddi.

## Rhan 3. Cyfraniad caffael yr awdurdod at gyflawni nodau llesiant.

28. Mae'r adran hon yn bodloni'r gofynion yn Adran 39(3)(b) o Ddeddf SPPP.

29. Mae'n cynnwys y wybodaeth, sy'n ofynnol gan reoliadau, i ddangos sut mae caffael yr awdurdod, yn gyffredinol, yn cyfrannu at gyflawni pob un o'r nodau llesiant.

30. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yma yn ymwneud â'r graddau y mae cyflenwyr yr Awdurdod Contractio eu hunain yn cyfrannu at y nodau llesiant.

31. Bydd data yn cwmpasu'r holl gontractau "adroddadwy" a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn, gan nad yw adran 39(2)(b) wedi'i chyfyngu i gontractau rhagnodedig.

32. Gallai Awdurdodau Contractio gynnwys metrigau, gwybodaeth ac astudiaethau achos eraill i ategu'r wybodaeth sy'n ofynnol mewn rheoliadau.

## Adroddiad blynyddol cryno Gweinidogion Cymru ym maes caffael (adran 42)

33. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru y flwyddyn honno, a chanlyniadau unrhyw ymchwiliadau caffael a gynhaliwyd o dan adran 41. Yn ddelfrydol, gwneir hyn pan fydd yr Awdurdodau Contractio wedi cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol.

34. Gall is-grŵp caffael y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol adolygu adroddiadau blynyddol Awdurdodau Contractio a rhoi cyngor i Weinidogion ar ddatblygu'r adroddiad ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru.

35. Rhaid i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol a rhaid ei osod gerbron y Senedd.